


# CHAPTER

# GORUCHWYLYDD CAFFI BAR

## Disgrifiad swydd

| | |
|---|---|
| Yn adrodd i: | Rheolwr y Caffi Bar |
| Yn gyfrifol am: | Tîm Blaen y Tŷ Caffi Bar |
| Cyfradd: | £13.10 yr awr |
| Oriau: | Hyblyg, dim sifftiau hollt, dim mwy nag 8 awr y dydd, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc. |
| Contract: | Rydyn ni'n derbyn ceisiadau am oriau llawn amser neu ran amser. Rydyn amgylchedd gweithio hyblyg. Mae sifftiau cynnar, sifftiau gyda'r nos ac ar benwythnosau yn rhan o'r swydd. |

## CAFFI BAR

Mae ein caffi bar yn y prif gyntedd, gyda lle i 200 eistedd yno. Mae bwyd ar werth bob dydd rhwng 9yb, gyda bwydlen amrywiol o fwyd poeth, brechdanau a saladau ffres, te, coffi a chacennau. Gweinir alcohol o ganol dydd tan 11yh. Mae gwasanaeth lletygarwch ar gael ar gyfer digwyddiadau yn y ganolfan gelfyddydau, gan gynnig ystod lawn o luniaeth, o de a choffi i blatiau brechdanau a bwffe.

# DYLETSWYDDAU

Rheoli tîm y caffi bar yn ystod cyfnodau gwasanaeth, gan sicrhau gwasanaeth effeithlon a chwrtais a bod y caffi bar yn rhedeg yn esmwyth a bod yr holl dasgau'n cael eu cwblhau

### Prif ddyletswyddau

- Goruchwylio gwaith Cynorthwyydd Caffi Bar sy'n gweini bwyd a diod i gwsmeriaid y bar a'r caffi, gan sicrhau bod holl aelodau'r tîm yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon.
- Bod yn gyfeillgar, gan gyfathrebu'n dda a sicrhau safonau uchel o wasanaeth i gwsmeriaid yn unol â pholisi gofal cwsmeriaid Chapter.
- Arwain a chefnogi'r gwaith o hyfforddi aelodau'r tîm yn y swydd.
- Ymdrin â chwynion, awgrymiadau ac adborth gan gwsmeriaid, ac adrodd yn ôl wrth y rheolwyr.
- Bod yn wybodus am y fwydlen bob dydd.
- Dealltwriaeth o gyfraith trwyddedu a chyfrifoldebau deiliaid trwydded mewn perthynas â gweini alcohol
- Bod yn gyfrifol am weithredu a chywirdeb y tiliau, gan gynnwys awdurdodi ad-daliadau, cynnal fflôtiau til a chysoni arian parod.
- Rheoli gwasanaeth lletygarwch fel y caiff ei archebu.
- Dirprwyo ar ran Rheolwr y Caffi Bar mewn perthynas â rheoli'r seler, a allai gynnwys newid casgenni a nwy, gwaith cynnal a chadw cyffredinol yn y seler, derbyn cyflenwadau stoc.
- Sicrhau bod glendid y mannau gweini, byrddau a chadeiriau yn y caffi bar yn cael ei gynnal, a rheoli rotâu glanhau
- Sicrhau bod lefelau stoc yn cael eu cynnal, gan gynnwys y cypyrddau oer a'r ardal weini, a bod y cownter yn cynnwys digon o siwgr, halen, pupur, llaeth, cyllyll a ffyrc ac ati – a bod y stoc arddangos wedi'i gyflwyno'n ddeniadol.
- Sicrhau bod arwyddion, bwydlenni a deunyddiau hyrwyddo yn gyfredol ac wedi'u harddangos yn briodol
- Dilyn cod gwisg y cytunwyd arno, gan gynnwys gwisg gwaith lle bo'n berthnasol. Cynnal glendid personol ac ymddangosiad taclus.
- Dirprwyo ar gyfer Rheolwr y Caffi Bar pan nad ydynt ar ddyletswydd.

# MANYLEB YR UNIGOLYN

## Hanfodol

- Y gallu i weithio mewn amgylchedd a all fod y brysur ar adegau
- Personoliaeth gyfeillgar ac allblyg
- Chwaraewr tîm da
- Profiad bar blaenorol
- Gallu gweithio oriau hyblyg
- Gallu gweithio oriau anghymdeithasol

## Dymunol

- Profiad goruchwylio blaenorol
- Gallu cyfathrebu yn Gymraeg



Art in the Bar – Leanne Ross: ALL MY PALS

# YNGLŶN Â CHAPTER

Canolfan gelfyddydau yn Nhreganna, Caerdydd, yw Chapter.  Mae'n Ganolfan o ragoriaeth ar gyfer y celfyddydau, sy'n cynnwys gofodau stiwdio a llogi, theatrau a sinemâu, oriel a chaffi bar, a dros 50 o ofodau ar gyfer cwmnïau creadigol.

Bob blwyddyn, rydyn ni'n cyflwyno dros 2000 o ddigwyddiadau a rhaglenni sy'n denu dros 750,000 o ymwelwyr i'r ganolfan. Mae ein cefnogaeth i artistiaid a chrewyr mor gryf â'n hymrwymiad i ddangos y celf, y perfformiadau a'r ffilmiau arloesol gorau o Gymru a'r byd i gynulleidfa eang.

Fe'n sefydlwyd yn 1971, ac mae Chapter yn Elusen ac yn Gwmni Cofrestredig. Mae Chapter (Caerdydd) Cyf yn cynrychioli'r Elusen, tra bod Chapter (Masnachu) Cyf yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i Chapter Caerdydd, a thrwy'r is-gwmni rydyn ni'n rhedeg y caffi bar.

Mae grŵp Chapter yn fenter nid-er-elw ac mae wedi'i ariannu gan gyfuniad o incwm a ddaw drwy werthu tocynnau, y caffi/bar, llogi a rhentu, ochr yn ochr â chyllid gan sefydliadau fel Cyngor y Celfyddydau, Sefydliad Ffilm Prydain a Llywodraeth Cymru.

Mae caffi bar Chapter yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol y ganolfan, sy'n gartref i theatr, oriel, dwy sgrin sinema, cyfleusterau cyfarfod, swyddfeydd, a gofodau i denantiaid. Mae'r ganolfan ar agor saith diwrnod yr wythnos, ac mae gweithgareddau o 8.30am tan 11pm.

Mae cegin Chapter yn gweithredu o 9am tan 8.30pm, ac mae'n cynnig bwydlen amrywiol gyda brecwast, cinio a swper, ac mae'n darparu bwydlenni lletygarwch ar gyfer cyfarfodydd a chynadleddau.

Mae Chapter yn cyflogi tua 80 o bobl, gyda throsiant o oddeutu £3.5 miliwn y flwyddyn.

Rydyn ni'n canolbwyntio ar ein gweithwyr, drwy ein buddion, ein polisïau a'n harferion.



Llun gan Margaux Contant

# YNGLŶN Â'R BUDDION

Mae Chapter yn gyflogwr hyblyg a chyfeillgar, ac yn cynnig oriau gweithio hyblyg a gweithio hybrid. Mae'r Manteision i Staff yn cynnwys:

- 5.6 wythnos o wyliau y flwyddyn, gan gynnwys gwyliau banc, pro rata ar gyfer swyddi rhan amser.
- Cynllun pensiwn cyfrannol, a byddwch yn cael eich ymrestru iddo'n awtomatig (yn dibynnu ar amodau'r cynllun). Mae'r cynllun yn eich galluogi i gynilo ar gyfer eich ymddeoliad gan ddefnyddio eich arian eich hunan, ynghyd â rhyddhad treth a chyfraniadau gan y cwmni.
- 20% oddi ar fwyd a diod yn y caffi/bar
- Tâl Mamolaeth a Mabwysiadu uwch ar ôl blwyddyn o wasanaeth (yn dibynnu ar amodau'r cynllun).
- Cynllun Cymraeg Gwaith
- Dau docyn sinema am ddim y mis
- Gostyngiad ar docynnau sinema a theatr
- Mynediad at Raglen Cynorthwyo Gweithwyr
- Te a coffi canmoliaethus
- Cinio am ddim pan fyddwch yn gweithio yn yr adeilad
- Cefnogaeth ar gyfer datblygiad parhaus
- Gofal Llygaid am DSE
- Raciau beic diogel
- Parcio staff
- Digwyddiadau cymdeithasol i'r staff